Llywodraeth Cymru
Welsh Government

FFURFLEN, DOGFENNU

# Grant cyfalaf gwres carbon isel: canllawiau

Canllawiau ar wneud cais am y grant gwres carbon isel, gan gynnwys cymhwysedd ac amodau grant.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 26 Hydref 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 5 Tachwedd 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


Cyflwyniad

Amcanion grant

Amserlenni

Cais: dull

Cais: asesu

Cais: aeddfedrwydd prosiect

Cymhwysedd: sefydliad

Cymhwysedd: math a lleoliad y prosiect

Cymhwysedd: technoleg a mesurau

Cymhwysedd: costau anghymwys

Dull adeilad cyfan

Cyllid sydd ar gael

Meini prawf asesu

Gofynion allweddol eraill



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyflenwi prosiect

## Amodau

## Canllawiau ychwanegol: dysgu hyd yn hyn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad

Darperir y canllawiau hyn ochr yn ochr â Ffurflen Gais ar gyfer Grant Gwres Carbon Isel (GGCI).

Mae'r cyllid ar gael i bob awdurdod lleol gyda phrosiectau sy'n barod i'w gweithredu. Fe'i bwriedir ar gyfer gwaith cyfalaf sy'n gysylltiedig ag ôl-osod atebion gwres carbon isel mewn adeiladau nad ydynt yn ddomestig, sy'n eiddo i awdurdodau lleol.

Y gyllideb a ddyrannwyd yw hyd at £20 miliwn y flwyddyn. Mae hyn yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol weithredu prosiectau gwres carbon isel fel rhan o'u taith tuag at gyflawni Sero Net.

# Amcanion grant

Amcanion y Grant Cyfalaf Gwres Carbon Isel yw:

- Lleihau allyriadau carbon yn rhan o'r ymgyrch tuag at sicrhau sero net
- Cyflymu'r trawsnewid oddi wrth losgi tanwyddau ffosil ar gyfer gwresogi lleoedd a dŵr poeth
- Darparu cyllid ar gyfer prosiectau gwres carbon isel, gan alluogi cynlluniau â sefyllfaoedd ariannol heriol
- Annog dull adeilad cyfan ar gyfer gwres carbon isel
- Datblygu capasiti a sicrhau dysgu yn y sector cyhoeddus gan alluogi gwres carbon isel i ddod yn fusnes fel arfer

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Amserlenni

I adlewyrchu maint a natur aml-flwyddyn y cynllun bu sawl rownd ariannu:

Ceisiadau Rownd 3: 1af Tachwedd 2024 i 13ydd Rhagfyr 2024

Mae cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail blwyddyn ariannol. Ni ellir trosglwyddo cyllid o un flwyddyn i'r llall.
Rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o geisiadau Rownd 3 yn brosiectau blwyddyn ariannol sengl gyda gwariant yn BA 2025/2026, fodd bynnag, byddwn yn derbyn ceisiadau aml-flwyddyn ar gyfer prosiectau gyda gwariant cyn mis Ebrill 2025, gyda thystiolaeth gref o gyflawnadwyedd.
Sylwch y bydd cyllid yn cael ei ymrwymo ar ddechrau mis Ebrill hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol mis Mawrth.

Sylwch y bydd cyllid yn cael ei ymrwymo ar sail blwyddyn ariannol o ddechrau mis Ebrill hyd at ddiwedd mis Mawrth.

# Cais: dull

Mae Rownd 3 yn galluogi ceisiadau aml-flwyddyn: mae'r opsiwn hwn ar gyfer prosiectau sydd o raddfa a fydd yn cymryd un neu fwy o flynyddau ariannol i'w chyflawni ond rhaid eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2026. Bydd y cais am gyllid yn gofyn am werth diffiniol fesul blwyddyn. Gellir gwneud cais am wariant prosiect ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/2025 gyda thystiolaeth gref o gyflawnadwyedd.

Ni fydd yn bosibl symud cyllid a ddyrannwyd yn hyblyg o un flwyddyn ariannol i'r llall.

Gellir rhoi hyd at 10 adeilad ar un ffurflen gais. Os oes gennych fwy na 10

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

adeilad, bydd angen eu rhannu ar draws sawl ffurflen gais.

## Cais: asesu

Bydd ceisiadau yn cael eu hadolygu ar sail 3-4 wythnos. Er y bydd cyllid yn cael ei ddyrannu ar sail y cyntaf i'r felin mewn egwyddor, efallai y bydd cyfyngiadau yn cael eu gorfodi ar faint ymrwymiadau cyllid, yn ogystal â chap fesul sefydliad, er mwyn sicrhau dosbarthiad teg.

Rydym yn rhagweld y bydd angen cyfarfodydd adolygu ceisiadau gydag ymgeiswyr.

## Cais: aeddfedrwydd prosiect

Rydym yn disgwyl i brosiectau fod mewn sefyllfa parod am fuddsoddiad.

Mae ein profiad o brosiectau gwres carbon isel blaenorol wedi dangos bod y prosiectau â'r mwyaf o lwyddiant o ran darpariaeth a gwariant prydlon o gyllid grant yn dechrau'n gynnar, a bod ganddynt gynllun prosiect eglur.

Y meysydd allweddol i'w hystyried, a fydd yn destun craffu yn ystod yr asesiad, yw:

- Statws caniatâd cynllunio, os yw'n ofynnol, neu wedi'i gadarnhau fel datblygiad a ganiateir gan y tîm cynllunio lleol
- Sefyllfa gaffael, pa un a yw cyflenwyr mewn contract
- Statws ymgysylltiad â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal, neu gadarnhad nad oes angen uwchraddiadau Gweithredwr Rhwydwaith Ardal
- Cam dylunio, rydym yn ffafrio dyluniau cam RIBA 3 /4, ond fyddem yn derbyn dyluniau cam 2 RIBA gyda dyfynbrisiau priodol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Rhagolygon taliadau misol (pryd y bydd yr ymgeisydd yn disgwyl gwneud cais am daliadau gan y Gwasanaeth Ynni)

## Cymhwysedd: sefydliad

Mae'r cyllid hwn yn agored i bob prif awdurdod lleol yng Nghymru.

Mae'r endidau canlynol wedi'u heithrio:

- Cynghorau Tref
- Cynghorau Cymuned
- Cyrff cyhoeddus eraill

## Cymhwysedd: math a lleoliad y prosiect

Mae'r cyllid hwn ar gyfer gwaith cyfalaf i ôl-osod atebion gwres carbon isel i ddisodli systemau gwresogi tanwydd ffosil mewn adeiladau annomestig yr awdurdod lleol. Mae'r meini prawf cymhwyso yn cynnwys y canlynol:

- Mae'n rhaid i adeiladau fod yn eiddo i'r awdurdod lleol neu'n destun les hirdymor (10 mlynedd o leiaf). Mae'n rhaid i adeiladau sy'n destun grant gael eu cadw am 10 mlynedd ar ôl dyfarnu'r grant
- Mae'n rhaid i adeiladau fod yn rhan o adroddiad carbon blynyddol yr awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru
- Mae'n rhaid bod gwres adeiladau yn cael ei gyflenwi gan systemau gwresogi tanwydd ffosil ar hyn o bryd (e.e., nwy naturiol, LPG, neu olew gwresogi)
- Mae'n rhaid nad yw'r gwaith arfaethedig ar y safle wedi cychwyn eto

Mae'n rhaid cyflawni gwariant y prosiect y gwneir cais amdano, erbyn 31 Mawrth 2026. Caiff cyllid ei ymrwymo ar sail blwyddyn ariannol ac mae'n rhaid ei wario

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

yn ystod y flwyddyn ariannol benodedig. Ni cheir cario cyllid sydd wedi'i gymeradwyo drosodd o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

Dylai prosiectau fod wedi bod yn destun gwaith dichonoldeb a datblygiad blaenorol, â'r sefydliad sy'n ymgeisio yn ymwybodol o'r ateb technoleg ac wedi ymrwymo i ddarparu cynllun gwres carbon isel y dyfodol.

Gall ceisiadau gynnwys yr holl waith amlen adeilad / cysylltiedig angenrheidiol i gwblhau'r gosodiad. Ni fydd unrhyw eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais y gellir eu hariannu o ffynhonnell arall yn cael eu cymeradwyo ar gyfer cyllid o'r gronfa hon. Ni fydd cynnwys eitem nad yw'n gymwys yn effeithio ar gymeradwyo eitemau cymwys, byddant yn cael eu dileu, a lle'n briodol eu cyfeirio at gyllid arall (e.e. Rhaglen Cylludo Cymru ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni).

## Cymhwysedd: technoleg a mesurau

Pethau derbyniol i'w cynnwys yn y gwaith cyfalaf :

- Gwelliannau i adeiladwaith adeilad, gan gynnwys atal drafftiau pan na ellir ei ariannu o ffynonellau eraill (e.e. cyllid cynnal a chadw wedi ôl-gronni).
- Uwchraddiadau dosbarthu ac allyrru gwres (gan gynnwys addasiadau i fatris gwres unedau trin aer (AHU)
- Uwchraddiadau storio thermol
- Pympiau gwres (aer/daear/dŵr), a Boeleri Trydan (at ddibenion atodi/wrth gefn yn unig)
- Uwchraddiadau capasiti seilwaith trydanol i alluogi gosod pympiau gwres
- Biomas lle nad yw ansawdd aer lleol yn cael ei effeithio'n andwyol yn sylweddol, ac nad yw pympiau gwres yn ymarferol
- Rhwydweithiau Gwres o gwmpas un safle/campws, e.e. campws ysgol uwchradd fawr
- Uwchraddiadau i rwydweithiau gwres ardal presennol (cynhyrchu gwres

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

carbon isel)*
- Gwaith datblygu – gwaith dylunio ac archwilio pellach (e.e. tyllau turio prawf)
- Prosiectau graddol

*Sylwer na fydd prosiectau Cynllun Effeithlonrwydd Rhwydwaith Gwres cymwys yn cael eu cynorthwyo gyda'r grant hwn.

# Cymhwysedd: costau anghymwys

Ni fydd y Grant Cyfalaf Gwres Carbon Isel yn cefnogi cyllid ar gyfer:

- Unrhyw brif waith gwresogi tanwydd ffosil e.e. boeleri nwy, Gwres a Phŵer Cyfunedig nwy
- Disodli systemau gwres carbon isel presennol (bwriedir y grant ar gyfer disodli systemau tanwydd ffosil)
- Gwresogi Ardal – gosodiadau newydd ac estyniadau i systemau presennol, lle ceir achos ariannol ac enillion o werthu gwres
- Gwaith dichonoldeb neu gysyniad
- Costau staff mewnol
- Costau wrth gefn - dylai'r ymgeisydd reoli costau ychwanegol
- Prosiectau lle mae'r gosodiad eisoes wedi dechrau
- TAW y gellir ei hadennill – bydd angen i ymgeiswyr reoli'r agwedd llif arian hon yn briodol lle caiff TAW ei thalu mewn un flwyddyn ariannol, ond ei hadennill y flwyddyn nesaf. Sylwch ein bod yn disgwyl i'r holl TAW fod yn adenilladwy.
- Costau gweithredu a chynnal a chadw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Dull adeilad cyfan

Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr fabwysiadu 'dull adeilad cyfan' o ddatgarboneiddio gwres a thrawsnewid oddi wrth danwyddau ffosil. Dylai ceisiadau gynnig atebion wedi'u datgarboneiddio'n llawn, gan gael gwared ar ddarpariaethau tanwydd ffosil.

Yn nodweddiadol, mae atebion pwmp gwres yn gofyn am systemau tymheredd is i weithredu ar eu mwyaf effeithlon. Felly, rydym yn disgwyl gweld ymgeiswyr yn gostwng tymereddau llif gymaint â phosibl (rhwng 35 a 55 ºC) i sicrhau perfformiad gorau posibl eu systemau gwresogi carbon isel. Gallai hyn wneud allyrwyr gwres a mesurau i wella inswleiddio yn angenrheidiol.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu lleihau tymereddau llif egluro eu dull a dangos ateb wedi'i ddatgarboneiddio'n llawn.

Rydym yn disgwyl pwmp gwres ag isafswm Cyfernod Perfformiad Tymhorol (sCOP) o 2.5. Pan fo boeleri wrth gefn / atodol trydanol wedi'u cynnwys, byddem yn disgwyl iddynt gwmpasu dim mwy nag 20% o gyfanswm y galw am wres.

Ar gyfer dull adeilad cyfan sy'n cynnwys effeithlonrwydd trydanol pellach neu gynhyrchu ynni adnewyddadwy, gellir cael gafael ar gyllid trwy Raglen Gyllido Cymru.

Dylid amlinellu costau uwchraddio cysylltiadau trydanol, o bosibl yn cwmpasu mesurau eraill fel systemau gwefru cerbydau trydan (EV) neu systemau ffotofoltäig (PV), yn y ceisiadau. Yna, byddwn yn ystyried sut y gellid cefnogi costau uwchraddio'r grid.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cyllid sydd ar gael

## Cais am Grant

Yn Rownd 3, Gall pob prosiect wneud cais am gyllid hyd at 90% o gyfanswm costau cyfalaf y prosiect.

Un o'r dyheadau ar gyfer y grant hwn yw meithrin profiad a chapasiti ar gyfer gweithredu gwres carbon isel ar draws ystod eang o fathau o adeiladau. Rydym hefyd yn dymuno lledaenu buddsoddiad ar draws is-sectorau (gofal cymdeithasol, addysg, swyddfeydd hamdden, ac ati). Dros Rownd 1 a 2, ymrwymwyd 63% o'r cyllid ar gyfer ysgolion felly ar gyfer Rownd 3 bydd adeiladau eraill yn cael blaenoriaeth, er y bydd ceisiadau am ysgolion yn dal i gael eu hystyried, os fydd arian yn caniatáu.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyfrannu o leiaf 10% o gyfanswm gwerth y prosiect.

Er y byddwn yn cefnogi prosiectau aml-flwyddyn, bydd cyllid yn cael ei ymrwymo o flwyddyn i flwyddyn. Disgwylir i ymgeiswyr reoli eu cyfraniad yn briodol.

Mae'r cyllid yn cael ei ymrwymo ar sail blwyddyn ariannol a rhaid ei wario o fewn y flwyddyn ariannol benodedig. Ni ellir cario cyllid sydd wedi'i gymeradwyo o un flwyddyn ariannol i'r nesaf.

Ni fydd GGCI yn ailadrodd unrhyw gyllid piblinell presennol neu arfaethedig fel prosiectau Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu. Rydym yn annog ymgeiswyr i ddefnyddio ffynonellau cyllid eraill lle bo hynny'n briodol, i sicrhau'r gostyngiadau mwyaf posibl i allyriadau carbon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Meini prawf asesu

## Meini prawf allweddol

- Rydym yn disgwyl i systemau gynhyrchu gwres yn llai na 100g $CO_2e$/kWh

Er na fydd prosiectau'n cael eu hasesu'n uniongyrchol yn erbyn y paramedrau a restrir isod, byddwn yn eu hystyried fel rhan o'r cais i bennu addasrwydd ar gyfer cyllid.

## Metrigau sy'n cael eu hystyried

- allbwn gwres kW wedi'i osod fesul £ o gyllid
- kWh/m2 presennol vs. gwell
- £/t$CO_2e$ o arbedion (dros oes technoleg)
- Gwybodaeth am ad-daliad/effaith ariannol
- Disgwyl allyriadau $CO_2e$ sy'n gysylltiedig â gwres ar ôl gosod ffynhonnell wres carbon isel
- Canran y defnydd o bwmp gwres vs. boeler trydan

## Agweddau ansoddol sy'n cael eu hystyried

- Cyflawni, aeddfedrwydd y prosiect, a thystiolaeth ategol
- Gwydnwch a blaengynllun esblygiad
- Arfarniad opsiynau technegol a gynhaliwyd, gan gynnwys lleihau defnydd ynni sylfaenol / defnydd ffabrig dull cyntaf
- Llywodraethu prosiectau
- Cadarnhad o ystad a gedwir

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Gofynion allweddol eraill

## Darparu gwybodaeth ategol

Dylai'r wybodaeth ategol ganlynol gyd-fynd â cheisiadau am gyllid:

- Gwaith dichonoldeb yn dangos:
  - Y gellir gosod y system yn dechnegol
  - Y disgwylir i'r system ddarparu gwres ar lai na 100g CO2e/kWh
  - Taflen fanyleb ar gyfer y pwmp gwres neu ffynhonnell gwres carbon isel arall
- Tystiolaeth o sCOP y pwmp gwres
- Asesiad risg yn amlinellu risgiau mawr i gyflawni'r prosiect

Sylwer, nid oes angen lluniadau a drychiad sy'n dangos lleoliad a maint y gwaith gyda'r cais cychwynnol. Fodd bynnag, gellir gofyn amdanynt yn rhan o adolygiad y prosiect.

# Cyflenwi prosiect

Bydd prosiectau cymeradwy yn llofnodi llythyr cynnig grant, yn derbyn templedi dogfennau adrodd a hawlio ac yn cydgysylltu â'r Gwasanaeth Ynni drwy:

- Cyflwyno adroddiadau cynnydd misol, erbyn 5ed diwrnod gwaith pob mis. Mae'r templed adrodd yn cynnwys:
  - Cynllun Prosiect e.e. amserlenni, cwmpas, cynnydd o bwys.
  - Proffil tynnu i lawr h.y. pan fyddwch yn bwriadu hawlio arian drwy gydol y flwyddyn
  - Diweddariadau cyflwyno e.e. cerrig milltir ar bob safle, materion i'w

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

hadrodd, amrywiadau posibl
- Cyflwyno ceisiadau talu lluosog yn unol â'r proffil tynnu i lawr, gan osgoi hawliadau mawr ym mis Mawrth. Dylai sefydliadau dynnu arian i lawr mewn ôl-ddyledion, fel a phryd y telir costau. Mae angen tystiolaeth anfoneb (PDF). Nodyn: Rhaid darogan ceisiadau talu yn y proffil tynnu i lawr o leiaf un mis ymlaen llaw, a dim ond os yw'r adroddiad prosiect yn gyfredol y gellir eu symud ymlaen.

Gellir cysylltu â thîm y Gwasanaeth Ynni drwy **LowCarbonHeat@energyservice.wales**

# Amodau

## Amodau arbennig, data, gwybodaeth a cheisiadau cyfathrebu

- I dderbyn y grant, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth o ddyfynbris a phenodiad contractwyr i'r Gwasanaeth Ynni.
- Mae'n ofynnol i'r grantî ddarparu mynediad at staff gweithredol ar gyfer cyfweliadau/arolygon, ymateb i geisiadau am astudiaethau achos a datganiadau i'r wasg, a chytuno i geisiadau rhesymol i rannu dysgu a gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw wedi'i gyfyngu i rannu gwybodaeth dylunio/perfformiad, cefnogi ymweliadau safle, a rhannu gwybodaeth/lluniau astudiaethau achos.
- Sylwer fod y gronfa'n gyfyngedig, ac os bydd ceisiadau yn mynd y tu hwnt i'r cyllid sydd ar gael, byddwn yn ystyried agweddau fel gallu i gyflawni, effaith garbon bosibl a gwaith gwerthuso dichonoldeb/arfarnu opsiynau blaenorol i flaenoriaethu cyllid.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Bydd prosiectau a gymeradwyir yn derbyn llythyr cynnig grant yn nodi telerau ac amodau’r grant. I dderbyn y grant, bydd angen I uwch berson priodol i lofnodi’r llythyr a rhoi manylion banc. Bydd ceisiadau am daliad yn cael eu gwneud gan ddefnyddio ffurflen hawlio, a fydd hefyd yn gofyn am eu llofnod.
- Rhaid hysbysu'r Gwasanaeth Ynni drwy e-bost ynghylch unrhyw newidiadau sylweddol i'r prosiect cymeradwy. Enghreifftiau: newid o ran cwmpas, cyflawniad o fewn y flwyddyn ariannol, newidiadau i'r gwerth grant gofynnol.

# Canllawiau ychwanegol: dysgu hyd yn hyn

## Gwersi a ddysgwyd gan Awdurdodau Lleol yn gosod gwres carbon isel mewn rowndiau cyllido blaenorol

- Gall darparu gwres carbon isel fod yn gymhleth, fodd bynnag, er gwaethaf yr heriau, mae'r farchnad yn ymgysylltu ac mae yna wybodaeth o'r nifer cynyddol o brosiectau parhaus awdurdodau lleol wrth i wres carbon isel ddechrau dod yn 'fusnes fel arfer'.
- Yr ystyriaethau allweddol wrth gynllunio ar gyfer prosiectau gwres carbon isel yw:
    - Dull Adeilad Cyfan
    - Capasiti a Llwytho trydanol
    - Maint priodol y dechnoleg gwres carbon isel a storio thermol
    - Ystyriaethau dylunio a chynllunio
    - Rhaglen Gosod
    - Mesur a Gwirio Parhaus
- Cyngor allweddol y byddem yn ei roi i unrhyw ymgeiswyr gwres carbon isel i fod yn rhagweithiol iawn a cheisio ymgysylltu'n gynnar â’r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal, hyd yn oed cyn y dyluniad terfynol. Ar draws prosiectau GCI rydym yn gweld cymysgedd o anghenion ar gyfer gwaith sy'n

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

gysylltiedig â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal, nid oes angen gwaith uwchraddio ar rai, gan fod ganddynt ddigon o gapasiti safle, ac mae rhai angen gwaith cysylltiad â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal. Rydym yn annog ymgeiswyr yn gryf i gael dealltwriaeth glir o'u sefyllfa Gweithredwr Rhwydwaith Ardal ymlaen llaw.

## Crynodeb o ystyriaethau dylunio allweddol:

- **Ni** chynhwyswyd y pethau canlynol yn nyfynbrisiau cychwynnol contractwyr, ond fe nodwyd bod eu hangen yn ddiweddarach:
    - oplinthiau concrit ar gyfer pympiau gwres o'r aer
    - oman diogel ar gyfer pwmp gwres o'r aer (lle bo'n berthnasol)
    - ogwelliannau ffabrig / bylchau drafft mewn drysau/agoriadau
- Ystyriwch a yw'r eitemau hyn wedi'u cynnwys ym manyleb eich contractwr.
- Nid yw pob adeilad yn addas ar gyfer GCI ar hyn o bryd. Gwaith ategol (grid, trydan, inswleiddio ychwanegol ac ati) yn aml yw'r rhan fwyaf cymhleth o osod prosiect gwresogi carbon isel mewn eiddo hŷn.
- Mae arbenigedd wrth ddylunio systemau GCI effeithlon yn gwella ond yn dal i fod yn brin mewn diwydiant. Efallai y bydd angen i chi edrych y tu allan i gontractwyr Mecanyddol a Thrydanol cyfredol wrth gaffael GCI. Bydd angen hyfforddi timau mewnol ar ddefnyddio systemau GCI yn effeithlon hefyd a dylid ei gynnwys ym manyleb y prosiect.
- Gall amseriadau prosiect fod yn her, yn enwedig i adeiladau addysg; rhaid ystyried hyn yn ofalus. Gall fod yn synhwyrol i gynnwys amser wrth gefn yn llinellau amser y prosiect os oes potensial i arolygon ddatgelu problemau, yn enwedig gydag adeiladau hŷn.

## Crynodeb o ystyriaethau allweddol dylunio:

- Effeithiau tymheredd dylunio pympiau gwres awyr agored a chapasiti trydanol kW,– ystyried beth sy'n realistig

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Mae mannau gosod pwmp gwres o'r aer yn aml yn ofyniad diogelwch– ystyriwch lif aer fel nad yw gweithrediad yn cael ei effeithio
- Ateb ar gyfer Dŵr poeth yn y Cartref: ystyried colledion system i werthuso canolog o'i gymharu â datganolog
- Tymheredd dylunio: lleihau cymaint â phosibl yn y dyluniad, ystyriwch dreial yn y gaeaf cyn lleihau tymereddau llif
- Mae angen rhoi ystyriaeth drylwyr i welliannau ffabrig ac atal drafft
- Uwchraddio trydanol: sicrhau bod y gofynion wedi'u deall
- Maint storio thermol: y gallu i ffitio trwy ddrws, ond hefyd maint ar gyfer Cyfernod Perfformiad (COP)
- Effaith amgylcheddol: ystyried materion cynllunio fel perygl llifogydd, ac ystlumod!

## Crynodeb o ddysgu allweddol prosiectau:

- Caniatâd cynllunio ar gyfer y cynllun- cadarnhau a ganiateir ai peidio!
- Dull caffael, amser, a risg i ddylunio / cyllid- dyfynbris yn ystod y cam ymgeisio, ystyriwch ddefnyddio un contractwr
- Dyfynbrisiau terfynol a chymeradwyaethau Gweithredwr Rhwydwaith Ardal– effaith amser a chostau'n newid- ymgysylltu'n rhagweithiol a bwrw ymlaen
- Cadw costau am flwyddyn - rydym yn rheoli hyn gyda llythyr cadarnhau cadw, hyd at 10%

## Crynodeb o ddysgu allweddol gosod:

- Llwch: effaith mewn lle sy'n cael ei ddefnyddio a larymau tân!
- Diogelwch y safle a mynediad i gontractwyr: gweithio o gwmpas amseroedd prysur
- Materion annisgwyl: asbestos
- Defnydd o'r system bresennol: gofyniad i lanhau pibellau presennol a slwtsh rheiddiadur

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/grant-cyfalaf-gwres-carbon-isel-canllawiau-html-0** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.